

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

YSTYRIED ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 28 Medi, 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar gynnydd cyffredinol yn erbyn darpariaeth blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd. Tra bu pwysoliad cyfartal i'r pum blaenoriaeth strategol gan y Panel, amlygwyd y thema drosfwaol o 'leihau camfanteisio troseddol pobl ddiamddiffyn' drwy gydol yr adroddiad. Byddai'r blaenoriaethau hyn yn parhau ar gyfer y flwyddyn i ddod, cyn aildrefnu'r etholiadau ym mis Mai 2021.

Roedd yr adroddiad yn amlygu cyflawniadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd, a oedd yn cynnwys: lansiad y cynllun dargyfeirio Checkpoint Cymru; diwygio'r gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ar draws Gogledd Cymru; comisiynu gwasanaeth cefnogaeth cyffuriau ac alcohol newydd; a sefydlu Comisiwn Ieuencid cyntaf Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r canlynol hefyd:

- Gweithio mewn partneriaeth effeithiol
- Ymgysylltu â phobl ifanc ar Gomisiwn Ieuencid Gogledd Cymru
- Gwneud gwahaniaeth
- Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Blwyddyn o ddigwyddiadau
- Adroddiad Cynnydd Blaenoriaethau Strategol Heddlu a Throsedd 2019/20

- Crynodeb o'r Casgliadau
- Cyllid.

Rhoddodd y panel sylwadau ac awgrymu diwygiadau i'r Adroddiad Blynyddol drafft; roedd y rhan fwyaf wedi cael eu cynnwys o fewn yr adroddiad terfynol.

PENDERFYNWYD:

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2019/20.